**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2015-16

Gorffennaf 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
**Cymru**

National
Assembly for
**Wales**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: SeneddCyllid@cynulliad.cymru
Twitter: @SeneddCyllid

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2015-16

Gorffennaf 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

# Y Pwyllgor Cyllid

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor Cyllid yw gweithredu'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 19. Mae hyn yn cynnwys ystyried unrhyw ddefnydd ar adnoddau gan Gomisiwn y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, ac yn benodol cyflwyno adroddiad yn ystod cylch blynyddol y gyllideb. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae eu cylch gwaith hefyd yn cynnwys pwerau statudol penodol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n ymwneud â chyfrifoldebau newydd i oruchwylio materion llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru.

---

### Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Jocelyn Davies (Cadeirydd)**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Peter Black**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gorllewin De Cymru



**Christine Chapman**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



**Mike Hedges**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Alun Ffred Jones**
Plaid Cymru
Arfon



**Ann Jones**
Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



**Julie Morgan**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



**Nick Ramsay**
Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy

---

## Cynnwys


**Casgliadau ac Argymhellion y Pwyllgor** ..... 5

**1. Trosolwg** ..... 7

**2. Newidiadau yn ystod y flwyddyn i gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16 yn y dyfodol a Rhaglen Lywodraethu (Blaenoriaethu a Phroses y Gyllideb)** ..... 10

**3. Cyllid y GIG (Blaenoriaethu a Fforddiadwyedd)** ..... 12

**4. Cyllid ychwanegol ar gyfer iechyd meddwl (Fforddiadwyedd)** 16

**5. Datganoli ardrethi busnes yn llawn (Blaenoriaethu a Phroses y Gyllideb)** ..... 18

**6. Dyraniadau addysg ychwanegol (Fforddiadwyedd)** ..... 21

**Atodiad 1 - Tystion** ..... 23

## Casgliadau ac Argymhellion y Pwyllgor

**Casgliad 1.** Bydd y Pwyllgor yn dychwelyd at y gwaith o gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu wrth ystyried ail gyllideb atodol 2015-16, a ddylai ddangos y gostyngiadau sy'n gysylltiedig â'r toriadau o £46 miliwn yn ogystal ag effaith adolygaid gwariant yr hydref, a sut mae'r dyraniadau hyn yn effeithio ar gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu. (Tudalen 11)

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am sut mae gwaith i roi cyllid y GIG ar sail gynaliadwy yn mynd rhagddo, ac yn cadarnhau disgwyliadau'r Llywodraeth o ran perfformiad ariannol sefydliadau'r GIG yng 2015-16. (Tudalen 15)

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Llywodraeth yn darparu manylion yr effeithiau y mae'r dyraniadau ychwanegol ar gyfer diwygio'r GIG yn y gyllideb atodol hon wedi'u cael. O gofio y bydd y Cynulliad wedi ei ddiddymu cyn yr etholiad erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2015-16, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallai diweddariad gael ei ddarparu erbyn ail gyllideb atodol 2015-16. Bydd hyn yn galluogi'r Pwyllgor i fod yn hyderus bod y dyraniadau ychwanegol wedi cyfrannu at y diwygiadau a fwriadwyd er mwyn helpu'r GIG. (Tudalen 15)

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn falch o weld cyllid ychwanegol yn cael ei roi i iechyd meddwl, yn enwedig i blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, byddai'r Pwyllgor yn argymell bod targedau pendant yn cael eu cysylltu â'r dyraniadau ychwanegol i sicrhau bod yr arian o fudd uniongyrchol i'r rhai sydd ei angen fwyaf a bod y ddarpariaeth gwasanaeth yn cael ei gwella'n fesuradwy. (Tudalen 17)

**Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn gofyn am fanylion pellach gan y Gweinidog ynglŷn â pham nad yw datganoli ardrethi busnes yn llawn yn effeithio ar gost y Cynllun Rhyddhad Manwerthu Cymru i Lywodraeth Cymru yn yr un modd ag y mae rhyddhad ardrethi busnes bach. Byddai'n arbennig o ddefnyddiol i'r Pwyllgor ddeall pam mae'r defnydd o gynllun grant yn golygu nad yw datganoli ardrethi busnes yn llawn yn effeithio'n uniongyrchol ar gost y cynllun. (Tudalen 20)

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog roi rhagor o fanylion ynghylch sut y bwriedir ariannu Her Ysgolion Cymru yn 2015-16, o ystyried ei bod yn fenter bwysig i wella perfformiad mewn ysgolion uwchradd sy'n tanberfformio ar draws Cymru.
(Tudalen 22)

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn cyllidebau yn y dyfodol, yn dyrannu'r gyllideb lawn ar gyfer Her Ysgolion Cymru yn ystod y Gyllideb Ddrafft er mwyn osgoi ansicrwydd ynghylch trefniadau ariannu'r rhaglen yn y dyfodol. (Tudalen 22)

# 1. Trosolwg

1. Gosododd Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid ("y Gweinidog") gynnig y gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2015-16[1] ar 23 Mehefin 2015. Yn ogystal, cyflwynwyd nodyn esboniadol[2] a thablau yn dangos y dyraniadau i'r prif grwpiau gwariant (MEG). Mae'r gyllideb atodol hon yn diwygio Cyllideb Derfynol 2015-16, a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Rhagfyr 2014.

2. Ymddangosodd y Gweinidog gerbron y Pwyllgor Cyllid ("y Pwyllgor") ar 1 Gorffennaf, 2015.

3. Mae'r gyllideb atodol hon yn cadarnhau'r dyraniadau refeniw a ganlyn, a ariennir o gronfeydd wrth gefn:

- £70 miliwn ar gyfer y GIG yng Nghymru a gyhoeddwyd ym mis Ionawr.
- £14.6 miliwn ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl oedolion a gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc.
- £16.5 miliwn ar gyfer Gwyddoniaeth, yr Economi a Thrafnidiaeth, £15 miliwn ar gyfer Cynllun Rhyddhad Manwerthu Cymru ac £1.5 miliwn ar y Cynllun Ardrethi Busnes Ardaloedd Menter.
- £8.4 miliwn ar gyfer Addysg a Sgiliau ar gyfer Her Ysgolion Cymru, Rhaglen Sgiliau Hyblyg; Cymorth Datblygu Proffesiynol Parhaus ar gyfer y Fargen Newydd; a Phrentisiaethau'r Sector Gofal.

4. Nid oes dim newidiadau i ddyraniadau cyfalaf yn y gyllideb atodol.

5. Mae'r Gyllideb Atodol hon yn cynnwys ychwanegiadau net i'r llinell sylfaen, o ganlyniad i Gyllidebau a Datganiadau'r Hydref Llywodraeth y DU o £167.4 miliwn o arian refeniw, a £9.7 miliwn o arian cyfalaf, y mae £2.3 miliwn ohono yn gyllid trafodion ariannol ad-daladwy.

6. Ar 4 Mehefin, cyhoeddodd Llywodraeth y DU doriadau o ran gwariant adrannol yn ystod y flwyddyn. Mae'r toriadau hyn yn golygu gostyngiad o £50 miliwn ar gyfer Llywodraeth Cymru yn 2015-16, sef

---


[1] Llywodraeth Cymru, cynnig cyllideb atodol 2015-16, 23 Mehefin 2015.
[2] Llywodraeth Cymru, cyllideb atodol 2015-16, nodyn esboniadol, Mehefin 2015.

£43 miliwn o arian refeniw a £7 miliwn o arian cyfalaf.  Yn dilyn Cyllideb y DU ar 8 Gorffennaf, cafodd £4 miliwn mewn gwariant canlyniadol ei ddyrannu i Gymru, sy'n golygu mai'r gostyngiad mewn cyllid fydd £46 miliwn ers Cyllideb Derfynol 2015-16.  Nid yw'r newidiadau hyn wedi'u cynnwys yn y gyllideb atodol hon.

7. Mae datganoli ardrethi busnes yn llawn wedi achosi newid technegol yn nogfennaeth y gyllideb, sy'n golygu symud cyllid o £956 miliwn o wariant refeniw adrannol llywodraeth leol i Wariant a Reolir yn Flynyddol.

8. Dengys Ffigur 1 y prif ffigurau o'r gyllideb atodol hon, gan ddangos symudiad arian o gyllideb derfynol 2015-16.

9. Dim ond â newidiadau yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol y mae'r ffigurau yn y papur hwn yn gysylltiedig, ac felly fe'u dangosir ar ffurf arian parod; ni wnaed unrhyw addasiadau ar gyfer chwyddiant.




Ffigur 1[3]

[3] Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o gyllideb atodol Llywodraeth Cymru 2015-16

## 2. Newidiadau yn ystod y flwyddyn i gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16 yn y dyfodol a Rhaglen Lywodraethu (Blaenoriaethu a Phroses y Gyllideb)

10. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hadroddiad blynyddol yn ddiweddar ar y Rhaglen Lywodraethu.[4] Fel y nododd y Prif Weinidog yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Mehefin,[5] dyma adroddiad olaf tymor y Cynulliad hwn. Dywedodd y Prif Weinidog yn ystod y ddadl bod mwy na 95 y cant o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu naill ai wedi cael eu cyflawni, neu ar y llwybr tuag at gael eu cyflawni. Mae meysydd y Rhaglen Lywodraethu sydd â'r nifer fwyaf o ymrwymiadau sy'n aros i gael eu darparu yn ystod gweddill tymor y Cynulliad hwn, neu du hwnt yn cynnwys:

- Gofal Iechyd yr Unfed Ganrif ar Hugain, lle mae 46 o'r 111 o ymrwymiadau yn cael eu dosbarthu fel rhai 'fydd yn cyflawni';
- Cymunedau Gwledig, lle mae 28 o'r 47 o ymrwymiadau yn cael eu dosbarthu fel rhai 'fydd yn cyflawni'; ac
- Amgylchedd a Chynaliadwyedd, lle mae 32 o'r 54 o ymrwymiadau yn cael eu dosbarthu fel rhai 'fydd yn cyflawni'.

11. Ar 4 Mehefin, cyhoeddodd Llywodraeth y DU doriadau i wariant adrannol yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn golygu gostyngiad o £50 miliwn ar gyfer Llywodraeth Cymru yn 2015-16, sef £43 miliwn o arian refeniw a £7 miliwn o arian cyfalaf. Mae posibilrwydd y gwelir rhagor o newidiadau pan gyhoeddir Cyllideb nesaf y DU ar 8 Gorffennaf. Mae dogfennaeth y gyllideb atodol ei gwneud yn glir nad yw'r newidiadau hyn yn cael eu cynnwys yn y gyllideb atodol hon.

### *Tystiolaeth gan y Gweinidog*

12. Cydnabu'r Gweinidog bod diwallu ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu yn anodd wrth wynebu toriadau yn y gyllideb,[6] ond roedd y Gweinidog yn credu y byddai'r gyllideb atodol hon yn cyfrannu at gyflawni ymrwymiadau sy'n weddill, a dywedodd y Gweinidog:

---

[4] Llywodraeth Cymru Adroddiad Blynyddol ar y Rhaglen Lywodraethu Mehefin 2015
[5] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, y Cyfarfod Llawn 16 Mehefin 2015
[6] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 1 Gorffennaf 2015, paragraff 8

> "it [the supplementary budget] does fit in very much with our programme for government objectives, particularly relating to health and health services, educational attainment, and also the jobs and growth through the Wales retail rate relief scheme and the business rate scheme."[7]

13. Fodd bynnag, er bod y Gweinidog yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, cydnabuwyd hefyd y gall y toriadau o £50 miliwn yn ystod y flwyddyn (na chânt eu hadlewyrchu yn y gyllideb atodol hon) a chyhoeddiadau cyllideb y DU ym mis Gorffennaf 2015 effeithio ar reoli'r Rhaglen Lywodraethu yn ystod y flwyddyn.[8]

14. Mewn perthynas â'r toriadau yn y gyllideb, dywedodd y Gweinidog nad yw penderfyniadau wedi cael eu gwneud ynghylch sut i reoli'r toriad o £50 miliwn, ond roedd yn cael ei ystyried yn ofalus. Dywedodd y Gweinidog hefyd fod newidiadau annisgwyl i gyllidebau yn ystod y flwyddyn yn llesteirio gallu'r Llywodraeth i flaengynllunio.[9]

***Safbwynt y Pwyllgor***

15. Mae'r Pwyllgor yn falch o nodi bod y Llywodraeth wedi cyflawni, neu ar y trywydd iawn i gyflawni, dros 95 y cant o'r Rhaglen Lywodraethu. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu na fydd rhai elfennau o'r rhaglen yn cael eu cyflawni.

16. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr anawsterau sy'n gysylltiedig â thoriadau i'r gyllideb yn ystod y flwyddyn. Tra'n cydnabod y posibilrwydd o doriadau annisgwyl, mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd proses y gyllideb ddiwygiedig yn caniatáu mwy o le i alinio cyhoeddiadau cyllideb Llywodraeth y DU ag amserlen cyllideb Llywodraeth Cymru.

**Bydd y Pwyllgor yn dychwelyd at y gwaith o gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu wrth ystyried ail gyllideb atodol 2015-16, a ddylai ddangos y gostyngiadau sy'n gysylltiedig â'r toriadau o £46 miliwn yn ogystal ag effaith adolygaid gwariant yr hydref, a sut mae'r dyraniadau hyn yn effeithio ar gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu.**

---

[7] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 1 Gorffennaf 2015, paragraff 6
[8] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 1 Gorffennaf 2015, paragraff 10
[9] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 1 Gorffennaf 2015, paragraff 155

# 3. Cyllid y GIG (Blaenoriaethu a Fforddiadwyedd)

17. Mae'r gyllideb atodol yn dyrannu £84.5 miliwn o refeniw ychwanegol DEL i'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys dau ddyraniad ar wahân, sef £70 miliwn i gefnogi GIG Cymru a £14.6 miliwn i gefnogi gwasanaethau iechyd meddwl.

18. Cafodd manylion dyraniadau ychwanegol y GIG eu darparu mewn datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Ionawr 2015.[10] Mae'r £70 miliwn wedi'i ddyrannu i ddatblygu prosiectau penodol, a gaiff effaith amlwg a mesuradwy ar wasanaethau y mae galw uchel amdanynt, gan helpu i ddiwygio GIG Cymru. Mae'r dyraniadau unigol yn ymwneud â:

- datblygiadau ym maes gofal sylfaenol - £30 miliwn;
- datblygu'r Gronfa Gofal Canolraddol - £20 miliwn (dyrannwyd £50 miliwn i'r gronfa yn 2014-15);
- gweithredu cynlluniau cyflawni - £10 miliwn;
- y gronfa Efficiency through technology - £10 miliwn.

19. Diwygio'r GIG oedd testun nifer o argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor o graffu ar y gyllideb ddrafft 2015-16.[11] Yn yr adroddiad hwnnw, cyfeiriodd y Pwyllgor hefyd at ei ddisgwyliad y dylai holl gyrff y GIG fod wedi cytuno ar gynlluniau tair blynedd yn 2015-16 (argymhelliad 4 o'r adroddiad). Roedd Datganiad Ysgrifenedig[12] gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 10 Mehefin yn dangos bod cynlluniau tair blynedd pump allan o'r deg sefydliad wedi cael eu cymeradwyo ganddo. Y rhain yw Byrddau Iechyd Aneurin Bevan a Phrifysgol Cwm Taf, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

---

[10] Llywodraeth Cymru, Mark Drakeford AC (Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol), Defnyddio £70 miliwn canlyniadol Datganiad yr Hydref i ddiwygio gwasanaethau'r GIG, Datganiad Ysgrifenedig, 28 Ionawr, 2015
[11] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2015-2016, Tachwedd 2014
[12] Llywodraeth Cymru, Mark Drakeford AC (Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol), Diweddariad ar Gynllunio yn y Tymor Canolig, Datganiad Ysgrifenedig, 10 Mehefin, 2015

20. Mae papur y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mis Mehefin 2015[13] yn dangos canlyniadau dros dro ar gyfer 2014-15 o gyfrifon heb eu harchwilio. Mae diffygion cyfunol wedi cael eu lleihau i £54.8 miliwn a methodd tri Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) â mantoli'r cyfrifon, Betsi Cadwaladr (diffyg o £26.6 miliwn, Caerdydd a'r Fro (£21.4 miliwn) a Hywel Dda (£7.5 miliwn).

### *Tystiolaeth gan y Gweinidog*

21. Esboniodd y Gweinidog fod iechyd yn flaenoriaeth bwysig[14] a bod y cyllid ychwanegol yn rhan o agenda ddiwygio.

22. Mewn perthynas â'r cynlluniau tair blynedd, dywedodd y Gweinidog fod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ei gwneud yn glir y byddai ond yn cymeradwyo cynlluniau sydd yn ei farn ef yn gredadwy o ran eu hymateb i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol.[15]

23. O ran gwariant ar iechyd, dywedodd y Gweinidog mai cyfrifoldeb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yw sicrhau ei fod yn rheoli ei gyllideb o fewn yr adnoddau a ddyrannwyd, ond dealltwriaeth y Gweinidog oedd y byddai'r gyllideb ar gyfer Prif Grŵp Gwariant ("MEG") Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn mantoli'r cyfrifon yn 2014-15.[16]

24. Yn dilyn hynny, mewn Datganiad Ysgrifenedig ar 2 Gorffennaf[17] nododd y Gweinidog Iechyd, ei fod yn hyderus y bydd y gyllideb iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn mantoli'r cyfrifon yn 2014-15 yn dilyn archwilio cyfrifon blynyddol Llywodraeth Cymru. Eglurodd y datganiad ysgrifenedig bod arbedion a llithriad ar gyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol a ddelir yn ganolog wedi cael eu defnyddio i wneud iawn am y diffygion a ragwelir yn y tri sefydliad a adroddodd y byddent yn gorwario.

---

[13] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, HSC(4)-18-15 Papur 4, 17 Mehefin 2015
[14] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 1 Gorffennaf 2015, paragraff 13
[15] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 1 Gorffennaf 2015, paragraff 15
[16] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 1 Gorffennaf 2015, paragraff 17
[17] Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Mark Drakeford AC), Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, Perfformiad Ariannol y GIG 2014-15, 2 Gorffennaf, 2015

25. O edrych ar ddefnyddio'r dyraniadau ychwanegol ar gyfer diwygio'r GIG, nododd y Gweinidog:

> "But it's very clear and, obviously, through very close monitoring of the spend of that extra funding in terms of how it's used in this budget—that additional funding—we can see the impact of it and the reform agenda continues. Obviously, that extra £70 million was very important because it did help the Minister particularly to address the issue of moving towards a more primary care-led service—£40 million for primary care. And £20 million was invested in community based services, keeping people in their homes as much as possible. That's part of the £70 million, of course. And then, this most recent announcement about the £10 million for cardiac, diabetes, stroke care and cancer is very much welcomed in terms of those particular conditions and needs in terms of health."[18]

26. Gofynnwyd i'r Gweinidog pa fesurau oedd yn cael eu cymryd i sicrhau bod y GIG yn dod yn fwy cynaliadwy ac na fydd angen dyraniadau ychwanegol pellach, yn enwedig ar draul gwasanaethau sy'n cefnogi'r GIG, fel gwasanaethau cymdeithasol. Dywedodd y Gweinidog y byddai ychydig o'r arian ychwanegol, yn enwedig trwy ddyrannu i ddatblygu prosiectau Cronfa Gofal Canolraddol, yn cael ei ddefnyddio i geisio hybu newid o ran rheoli partneriaeth.[19]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

27. Noda'r Aelodau bod tri BILl wedi gorwario yn 2014-15 a dim ond pump o'r deg o sefydliadau'r GIG sydd â chynlluniau tair blynedd wedi'u cymeradwyo ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015-16 ymlaen. Er bod dau o'r byrddau iechyd lleol sy'n weddill yn darparu cynlluniau wedi'u diweddaru, mae hyn peri pryder i'r Pwyllgor o ran gallu sefydliadau'r GIG i aros o fewn eu cyllidebau ar gyfer 2015-16.

28. Roedd llawer o argymhellion y Pwyllgor ar ôl craffu ar gyllideb ddrafft 2015-16 yn ymwneud â'r cynnydd yn y cyllid i iechyd, ac mae'r materion hyn yn parhau i beri pryder i'r Aelodau, yn enwedig o ran dibynnu ar ganfyddiadau un adroddiad, sef Adroddiad Nuffield.

---

[18] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 1 Gorffennaf 2015, paragraff 21

[19] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 1 Gorffennaf 2015, paragraff 28

29. Cafodd cyllid ychwanegol uwch na'r bwlch ariannu a nodwyd yn Adroddiad Nuffield ei roi i sefydliadau'r GIG yn 2014-15 a, hyd yn oed wedyn, roedd tri sefydliad wedi gorwario. Mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn bryderus bod arian ychwanegol i'r portffolio Iechyd wedi cael ei roi ar wahân ac ar draul gwasanaethau eraill.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am sut mae gwaith i roi cyllid y GIG ar sail gynaliadwy yn mynd rhagddo, ac yn cadarnhau disgwyliadau'r Llywodraeth o ran perfformiad ariannol sefydliadau'r GIG yng 2015-16.**

30. Er bod y Pwyllgor yn croesawu amlinelliad y Gweinidog y bydd yn monitro cynnydd ar effaith y dyraniadau ychwanegol i ddiwygio'r GIG yn ofalus, bydd y Pwyllgor yn cadw llygad barcud ar y defnydd o'r arian hwn i sicrhau ei fod yn cyfrannu at y diwygio y bwriedir iddo ei gyflawni.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Llywodraeth yn darparu manylion yr effeithiau y mae'r dyraniadau ychwanegol ar gyfer diwygio'r GIG yn y gyllideb atodol hon wedi'u cael. O gofio y bydd y Cynulliad wedi ei ddiddymu cyn yr etholiad erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2015-16, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallai diweddariad gael ei ddarparu erbyn ail gyllideb atodol 2015-16. Bydd hyn yn galluogi'r Pwyllgor i fod yn hyderus bod y dyraniadau ychwanegol wedi cyfrannu at y diwygiadau a fwriadwyd er mwyn helpu'r GIG.**

# 4. Cyllid ychwanegol ar gyfer iechyd meddwl (Fforddiadwyedd)

31. Bydd y dyraniad ychwanegol £14.6 miliwn i gefnogi gwasanaethau iechyd meddwl yn cael ei fuddsoddi er mwyn cefnogi pobl â dementia, gwella therapïau seicolegol ar gyfer oedolion, gwella canlyniadau i fenywod sydd â salwch amenedigol[20] a gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed.[21]

32. Clywodd[22] ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn 2014, mai un o brif bryderon rhanddeiliaid oedd y swm a gaiff ei wario gan fyrddau iechyd lleol ar wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed. Tynnwyd sylw at y ffaith ei fod yn anghymesur o isel o'i gymharu ag iechyd meddwl oedolion.

33. Dengys ystadegau Llywodraeth Cymru ar wariant y pen o'r boblogaeth yn 2013-14 wariant o £205.84 y pen ar broblemau iechyd meddwl ac o hynny:

- cafodd £87.15 y pen ei wario ar salwch meddwl cyffredinol;
- cafodd £58.95 y pen ei wario ar salwch meddwl oedrannus;
- cafodd £14.39 y pen ei wario ar salwch meddwl plant a'r glasoed; a
- cafodd £45.34 y pen ei wario ar broblemau iechyd meddwl eraill.

***Tystiolaeth gan y Gweinidog***

34. Gofynnwyd i'r Gweinidog a fydd y dyraniadau ychwanegol i gyllid iechyd meddwl yn darparu gwerth am arian a lleihau'r anghydraddoldeb mewn gwariant ar iechyd meddwl rhwng plant a phobl ifanc, ac oedolion. Dywedodd y Gweinidog y byddai'r cyllid yn cael ei dargedu at feysydd penodol, a ddylai fod yn fwy tryloyw o ran asesu a monitro'r gwariant hwnnw a'i effaith.[23]

[20] Llywodraeth Cymru, £8 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion yng Nghymru, 5 Mehefin, 2015
[21] Llywodraeth Cymru, Hwb ariannol o £7.6m ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc yng Nghymru, 22 Mai, 2015
[22] Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru Ymchwiliad i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, Tachwedd 2014
[23] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 1 Gorffennaf 2015, paragraff 44

35. Pan ofynnwyd a fyddai'r arian ychwanegol ar gyfer CAMHS yn gysylltiedig â thargedau, yn enwedig o ran atgyfeiriad i amseroedd triniaeth, roedd y Gweinidog yn cydnabod ei fod yn bwynt pwysig, ond dywedodd mai mater i'r Gweinidog Iechyd oedd penderfynu sut mae am hyrwyddo'r newidiadau.[24]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

36. Mae'r Pwyllgor yn falch o weld bod arian ychwanegol yn cael ei ddarparu yn y maes pwysig hwn o iechyd meddwl, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

**Mae'r Pwyllgor yn falch o weld cyllid ychwanegol yn cael ei roi i iechyd meddwl, yn enwedig i blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, byddai'r Pwyllgor yn argymell bod targedau pendant yn cael eu cysylltu â'r dyraniadau ychwanegol i sicrhau bod yr arian o fudd uniongyrchol i'r rhai sydd ei angen fwyaf a bod y ddarpariaeth gwasanaeth yn cael ei gwella'n fesuradwy.**

[24] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 1 Gorffennaf 2015, paragraff 53

# 5. Datganoli ardrethi busnes yn llawn (Blaenoriaethu a Phroses y Gyllideb)

37. Cafodd ardrethi annomestig (busnes) ("ardrethi busnes") eu datganoli'n llawn i Gymru ar 1 Ebrill, 2015. Mae hyn wedi arwain at newid technegol yn y gyllideb atodol lle mae £956 miliwn wedi cael ei drosglwyddo o Refeniw DEL i AME. Fodd bynnag, mae'r £956 miliwn yn ostyngiad bach o'r £962 miliwn a ragwelwyd fyddai'n cael ei drosglwyddo ar adeg Cyllideb Derfynol 2015-16.[25]

38. Cafodd nifer o symiau canlyniadol Barnett eu derbyn gan Lywodraeth Cymru hefyd o ran polisi ardrethi busnes yn Lloegr. Mae'r rhain yn cynnwys £37.8 miliwn yn deillio o Ddatganiad yr Hydref 2013 yn dilyn datganoli ardrethi busnes yn llawn a £36.8 miliwn o Ddatganiad yr Hydref 2014.

39. Mae'r gyllideb atodol hon yn dyrannu £15 miliwn ar gyfer ehangu Cynllun Rhyddhad Manwerthu Cymru a £1.5 miliwn i Gynllun Ardrethi Busnes Ardaloedd Menter.

40. Roedd argymhellion 2 a 3 o adroddiad y Pwyllgor yn craffu ar gyllideb ddrafft 2015-16 yn ymwneud ag ardrethi busnes.[26] Mae'r argymhellion yn galw ar Lywodraeth Cymru i fonitro a gwella cywirdeb y rhagolygon ar gyfer derbyniadau ardrethi busnes, a darparu manylion y trefniadau sydd ar waith i leihau ansefydlogrwydd treth. Wrth ymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru:

> "Whilst there is already a system in place to forecast and monitor NDR receipts in-year, consideration of information requirements for accurate forecasts of NDR revenues following the full devolution of NDR to Wales forms a major part of the on-going Non Domestic Rates devolution work programme. The NDR devolution work programme will identify changes needed to this system in the light of full NDR devolution."[27]

41. Mae datganoli llawn hefyd yn newid effeithiau ariannol Cymru yn efelychu'r polisi ardrethi busnes yn Lloegr. Pan fydd Llywodraeth y DU yn gwneud newid i ardrethi busnes yn Lloegr, mae'r grantiau a roddir i

---

[25] Llywodraeth Cymru Cyllideb Derfynol 2015-16, Rhagfyr 2014
[26] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2015-2016, Tachwedd 2014
[27] Llywodraeth Cymru, Ymateb i Argymhellion yn Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon o dan Fformiwla Barnett yn newid. O dan ddatganoli rhannol o ardrethi busnes, pe bai Cymru yn awyddus i efelychu polisi Llywodraeth y DU, gallai ddychwelyd yr ychwanegiad hwn i'r grant bloc, hyd yn oed pe bai gwir gost gweithredu'r polisi yng Nghymru yn uwch. Roedd hyn yn rhoi cymhellion cryf i Gymru i ddilyn polisi Llywodraeth y DU yn y gorffennol, oherwydd pe bai polisi yn costio mwy i'w weithredu yng Nghymru, mae'r gost ychwanegol wedi cael ei thalu gan Lywodraeth y DU.

42. Yn dilyn datganoli, Cymru, bellach, sy'n talu gwir gostau newidiadau mewn polisi ardrethi busnes, gan gynnwys y rhai sy'n efelychu newidiadau a wnaed yn Lloegr. Felly, daw efelychu rhai o bolisïau ardrethi busnes Lloegr, fel y rhyddhad ardrethi busnesau bach, yn fwy drud o dan ddatganoli llawn, ond ei fod yn rhoi mwy o gyfle i Gymru ddatblygu polisïau ardrethi busnes penodol sy'n diwallu anghenion busnesau Cymru.

### *Tystiolaeth gan y Gweinidog*

43. Gofynnwyd i'r Gweinidog am y gwaith sy'n cael ei wneud i fonitro a gwella cywirdeb rhagolygon ardrethi busnes. Dywedodd y Gweinidog:

> "… there is a forecasting system in place for non-domestic rates. It uses the latest available information that local authorities supplies. They, obviously, forecast expected revenues, and also there are assumptions about growth and prices. That forecast is supplemented by monitoring information that we receive that covers in-year changes."[28]

44. Dywedodd y Gweinidog y byddai rhagolygon yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor ond ei bod yn ystyried sut i wneud y wybodaeth a ddarperir yn fwyaf ystyrlon.[29]

45. Dywedodd y Gweinidog mai'r newidiadau mewn rhagolygon oedd yn gyfrifol am y newid rhwng y swm a ragwelir a nodir yn y gyllideb derfynol a'r ffigur yn y gyllideb derfynol.[30]

---

[28] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 1 Gorffennaf 2015, paragraff 51
[29] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 1 Gorffennaf 2015, paragraff 93

46. Wrth drafod y dyraniad ychwanegol i Gynllun Rhyddhad Manwerthu Cymru, dywedodd y Gweinidog:

> "The Wales retail relief scheme is managed through a system of grant support, so it's separate from the main non-domestic rates pool. So, it's not actually directly affected by the full devolution of business rates… but we are estimating what that will mean in terms of costs relief because we've got to. And, in fact, we think it probably is in line with what we've allocated."[31]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

47. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at gael y wybodaeth ddiweddaraf am ragolygon ardrethi busnes. Fodd bynnag, hoffai eglurhad pellach ynghylch pam nad yw datganoli ardrethi busnes yn llawn yn cael effaith ar y gost i Lywodraeth Cymru o ymestyn y Cynllun Rhyddhad Manwerthu Cymru. Mae hyn yn ymddangos yn wahanol i gasgliadau adroddiad y Panel Ardrethi Busnes,[32] sef y gall y gost i Lywodraeth Cymru o ddarparu rhyddhad fel rhyddhad ardrethi busnesau bach fod yn wahanol o ganlyniad i ddatganoli ardrethi busnes yn llawn.

**Mae'r Pwyllgor yn gofyn am fanylion pellach gan y Gweinidog ynglŷn â pham nad yw datganoli ardrethi busnes yn llawn yn effeithio ar gost y Cynllun Rhyddhad Manwerthu Cymru i Lywodraeth Cymru yn yr un modd ag y mae rhyddhad ardrethi busnes bach. Byddai'n arbennig o ddefnyddiol i'r Pwyllgor ddeall pam mae'r defnydd o gynllun grant yn golygu nad yw datganoli ardrethi busnes yn llawn yn effeithio'n uniongyrchol ar gost y cynllun.**

---

[30] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 1 Gorffennaf 2015, paragraff 96
[31] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 1 Gorffennaf 2015, paragraffau 98 a 102
[32] Panel Ardrethi Busnes ar gyfer Llywodraeth Cymru, Datganoli Ardrethi Busnes, Tudalen 11, Chwefror 2015

# 6. Dyraniadau addysg ychwanegol (Fforddiadwyedd)

48. Mae'r gyllideb atodol yn dyrannu swm ychwanegol o £8.4 miliwn i'r prif grŵp gwariant Addysg a Sgiliau ar gyfer y meysydd canlynol:

- Her Ysgolion Cymru (£3.5 miliwn);
- Rhaglen Sgiliau Hyblyg (£2.4 miliwn);
- Cymorth DPP ar gyfer y Fargen Newydd (£2 filiwn);
- Prentisiaethau'r Sector Gofal (£500,000).

49. Bu nifer o drosglwyddiadau hefyd o fewn y MEG Addysg a Sgiliau. Y mwyaf o'r rhain yw £231.6 miliwn o'r camau gweithredu Addysg Uwch i'r camau gweithredu Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16. Nid toriad yn nyraniad cyllideb addysg uwch yw hyn, ond trosglwyddo cyllid, yn hytrach, oherwydd y newid mewn cyfrifoldeb am dalu'r grant ffioedd dysgu gan CCAUC i Lywodraeth Cymru.

50. Bu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn craffu ar waith y Gweinidog Addysg a Sgiliau ynghylch Her Ysgolion Cymru yn ystod ei ymchwiliad i Ganlyniadau Addysgol Plant o Gartrefi Incwm Isel.[33]

51. Bydd angen cyllid o £20 miliwn ar y rhaglen am dair blynedd, a fydd yn cynnwys swm canlyniadol Barnett o £12.1 miliwn o Ddatganiad yr Hydref 2013, gyda'r gweddill o £7.9 miliwn yn cael ei ariannu o ffynonellau eraill. Nid oedd papur y Gweinidog i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg mewn perthynas â chraffu ar y Gyllideb Ddrafft yn rhoi unrhyw fanylion pellach o ran o ble y daw'r £7.9 miliwn ar gyfer 2015-16. Yn 2014-15, cafodd y £7.9 miliwn ei ailflaenoriaethu o feysydd eraill yn y Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau mewn dyraniadau a wnaed yn ystod yr ail gyllideb atodol. Yn 2015-16, y sefyllfa bresennol yw bod y dyraniad ychwanegol o'r gyllideb atodol hon yn cynnwys £3.5 miliwn o'r cyllid o £7.9 miliwn sydd ei angen. Fodd bynnag, nid yw'n glir o ble y daw'r cyllid o £4.4 miliwn ychwanegol sydd ei angen.

### *Tystiolaeth gan y Gweinidog*

52. Mewn perthynas â'r bwlch mewn cyllid ar gyfer Her Ysgolion Cymru, dywedodd y Gweinidog Cyllid wrthym na allai ateb na nodi lefel

[33] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Canlyniadau addysgol plant o gartrefi incwm isel, Chwefror 2015

y cyllid ar gyfer ysgolion penodol,[34] ond roedd yn gefnogol i Her Ysgolion Cymru fel blaenoriaeth.[35] Dywedodd y Gweinidog hefyd:

> "But it is a very important question in terms of asking, 'Is this going to meet the needs of the whole Schools Challenge Cymru programme?', and he [the Minister for Education and Skills] is now looking at the school development plans. They are going to be monitored, I understand, as all the programmes are, to consider whether they are adequate and fit for purpose, and then what the budgetary implications are."[36]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

53. Mae'r Pwyllgor yn gefnogol i'r dyraniadau ychwanegol i'r portffolio addysg, ond yn parhau i fod yn ansicr ynghylch sut y bydd y diffyg cyllid mewn perthynas â Her Ysgolion Cymru yn cael ei ddatrys.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog roi rhagor o fanylion ynghylch sut y bwriedir ariannu Her Ysgolion Cymru yn 2015-16, o ystyried ei bod yn fenter bwysig i wella perfformiad mewn ysgolion uwchradd sy'n tanberfformio ar draws Cymru.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn cyllidebau yn y dyfodol, yn dyrannu'r gyllideb lawn ar gyfer Her Ysgolion Cymru yn ystod y Gyllideb Ddrafft er mwyn osgoi ansicrwydd ynghylch trefniadau ariannu'r rhaglen yn y dyfodol.**

---

[34] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 1 Gorffennaf 2015, paragraff 96

[35] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 1 Gorffennaf 2015, paragraff 111

[36] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 1 Gorffennaf 2015, paragraff 109

## Atodiad 1 - Tystion

Mae'r tystion canlynol wedi rhoi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiau a nodwyd isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar i gyd yn:
www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1243

| *1 Gorffennaf 2015* | *Sefydliad* |
|---|---|
| Jane Hutt AC | Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth |
| Matt Denham Jones | Llywodraeth Cymru |
| Jeff Andrews | Llywodraeth Cymru |